# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i Gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Rhagfyr 15, 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cyng. Nia Jeffreys/ Cyng. Gareth Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen/Sioned Williams** |
| **Rhif Ffon Cyswllt** | **32335/32547** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Paratoadau'r Cyngor ar gyfer Brexit** |

1 **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Cymeradwyaeth o'r paratoadau a wnaed

2 **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Ar gyfer adlewyrchu ar y paratoadau a derbyn unrhyw arweiniad pellach yng nghyswllt y newidiadau sy'n wynebu'r Cyngor a thrigolion y Sir oddi ar y 1af o Ionawr, 2021.

3 **CYFLWYNIAD**

Mae pob un ohonom bellach yn ymwybodol y bydd gwledydd y Deyrnas Unedig (DU) yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar y 1af o Ionawr 2021. Ar yr adeg yr ysgrifennir yr adroddiad yma, nid yw'n eglur os y llwyddir i sicrhau cytundeb rhwng yr UE a Llywodraeth San Steffan ar ddiwedd y cyfnod pontio ac mae Prif Weinidog Llywodraeth y DU eisoes wedi datgan y dylem baratoi am sefyllfa heb gytundeb ym mis Ionawr 2021. Mae'r trafodaethau rhwng y ddwy ochr yn parhau ond er ei bod yn ymddangos bod cynnydd yn cael ei wneud mewn rhai meysydd mae yna nifer o faterion allweddol sydd eto i'w cytuno arnynt.

Os na chytunir ar gytundeb masnach, fe fydd y DU yn masnachu gyda gwledydd yr UE ar reolau Sefydliad Masnach y Byd – gan arwain at dollau yn cael eu cyflwyno ar nifer o fewnforion ac allforion, a allai gynyddu'r costau i fusnesau a defnyddwyr. Os y cytunir ar gytundeb byddai'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan ASau yn y DU a seneddau ar draws yr UE cyn diwedd y cyfnod pontio ar y 31 o Ragfyr eleni.

Hyd yn oed os y cytunir ar gytundeb masnach gyda'r UE oddi ar y 1af o Ionawr, fe fydd yna reolau newydd a fydd yn effeithio ar bob un ohonom. Bydd newidiadau ar deithio i'r UE ac oddi yno, ar y ffordd y mae busnesau yn mewnforio ac yn allforio nwyddau, ar y broses o gyflogi pobl o'r UE a'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu ym marchnadoedd yr UE.

Golyga hyn oll ein bod fel Awdurdod angen paratoi er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau y Cyngor ei hun yn ogystal a chefnogi busnesau a thrigolion y Sir o'r 1af o Ionawr 2021.

Bwriad yr adroddiad hon yw arddangos yr hyn sydd wedi'i wneud hyd yma fel paratoadau gan gydnabod nad oes modd paratoi'n drylwyr ar gyfer pob agwedd o'r newidiadau arfaethedig oherwydd nad yw eto yn glir pa delerau fydd yn weithredol.

Mae cydlynu trefniadau paratoi ar gyfer effeithiau Brexit o fewn y Cyngor wedi'u rhannu rhwng y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Pennaeth Economi a Chymuned gyda'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar y gwaith o gydgordio trefniadau mewnol y Cyngor tra bo'r Pennaeth Economi a Chymuned yn bennaf gyfrifol am waith y Cyngor yn cefnogi busnesau a chymunedau yn eu paratoadau ar gyfer y 1af o Ionawr 2021.

**Trefniadau Mewnol y Cyngor**
Er mwyn hwyluso'r gwaith hyn i gyd, sefydlwyd grŵp o gydlynwyr adrannol ar draws y Cyngor yn ystod Hydref 2018 dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol. Mae'r grŵp hwnnw wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r risgiau a wynebir, tra bo'r swyddogion unigol wedi bod yn cydgordio trefniadau paratoi o fewn gwasanaethau eu hadrannau. Mae'r Grŵp wedi llunio cofrestr risg sy'n adnabod y materion hynny sydd angen sylw yn wyneb ymadael yr UE hefo, neu heb, gytundeb (gweler Atodiad 1).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd, yn ystod yr wythnosau diwethaf, wedi tynnu sylw pob Awdurdod unwaith yn rhagor i'r hyn ystyrir yn brif risgiau i barhad gwasanaethau. Mae'r risgiau hynny, ymysg nifer helaeth o rai eraill, yn cael eu hamlygu yn ein cofrestr risg. Dyma'r ddau brif risg sydd wedi'u hadnabod gan y Cyngor;

***Cyflenwadau Bwyd a Meddyginiaethau*** – adnabuwyd yr effeithiau posib ar y gadwyn gyflenwi gan ddod i'r casgliad mai cost y cyflenwad bwyd fyddai'r risg mwyaf yn hytrach na'r cyflenwad ei hun. Mae'r swyddogion yn parhau i fonitro unrhyw ddatblygiadau yn hyn o beth fodd bynnag ac yn cynnal cyswllt rheolaidd hefo cyflenwyr gan bod oblygiadau pellgyrhaeddol i ddiffyg yn y gadwyn gyflenwi bwyd ar gyfer ein ysgolion a'n gwasanaethau sy'n cefnogi oedolion bregus. Yn yr un modd mae'r Adran Oedolion wedi adnabod y risg posibl o ddiffyg cyflenwadau meddyginiaeth. Mae camau ar lefel cenedlaethol yn cael eu cymryd ar gyfer ymdrin a'r risg benodol yma ond, eto, mae'r swyddogion yn annog ein darparwyr lleol yn ogystal â'n huned ddarparu i fod yn cysylltu gyda'u cyflenwyr er mwyn deall ac adnabod unrhyw risg posib.

***Gweithlu Gofal yn y Sector Annibynnol*** – gall gweithwyr sy'n dod o wledydd yr Undeb Ewropeaidd benderfynu dychwelyd o'u gwirfodd tra bo'r risg yn parhau na fydd gan weithwyr sy'n dod o wledydd yr UE yr hawl i weithio yng Ngwynedd i'r dyfodol. Mae'r risg a wynebir gan y Bwrdd Iechyd yn y cyswllt hwn yn debygol o gael effaith ar y system Iechyd a Gofal yn ei gyfanrwydd ac felly pe byddwn mewn sefyllfa o ddiffyg nyrsys o fewn ein cymunedau a'n ysbytai, gallai hynny roi pwysau ar y sector gofal annibynnol yn benodol. Nid yw'r risg yma yn amlygu'i hun o fewn gweithlu'r Cyngor i'r un graddau ac ni ystyrir bod risg i'r ddarpariaeth a reolir yn fewnol yn y cyd-destun hwn.

Ymhellach, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n agos hefo aelodau eraill Grŵp Cydlynwyr Brexit a sefydlwyd gan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r

Grŵp hwn yn cynnwys swyddogion o bob Awdurdod Leol yn ogystal a Llywodraeth Cymru ac mae'r Cyngor wedi elwa o'r arweiniad rheolaidd a'r drafodaeth sydd yn deillio o'r Grŵp.

Mae'r Cyngor hefyd wedi derbyn cyfres o gymorthdaliadau gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o baratoi ar gyfer mis Ionawr. Mae cyfanswm o £96,000 dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf wedi'i ddyrannu i bwrpas buddsoddi adnodd i'r perwyl hwn ac mae'r Cyngor wedi defnyddio'r arian yn bennaf i'n galluogi i ryddhau amser swyddogion allweddol i ganolbwyntio ar y paratoadau. Mae hyn wedi cynnwys darparu gwybodaeth am y newidiadau arfaethedig i'r cyhoedd, ac i staff y Cyngor, trwy'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn ogystal a darparu cymorth, trwy'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Cofrestru, i'r trigolion hynny sydd angen cyflwyno cais am statws preswylydd sefydlog yn wyneb ymadael a'r UE. Mae swm pellach o £3,200 wedi'i hawlio oddi wrth Llywodraeth Cymru yn benodol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r angen i rai o'n trigolion ymgeisio am statws preswylydd sefydlog.

Derbyniwyd grant o £40,109 (cyfuniad o arian cyfalaf a refeniw) i gefnogi ymdrechion banciau bwyd yn wyneb Brexit ac mae'r arian hwnnw wedi'i ddyrannu ar gyfer amryw o gynlluniau yn dilyn ymgynghoriad hefo cynrychiolwyr y banciau bwyd ar draws y Sir.

Ymhellach, rhyddhawyd swm o £28,000 i'r Cyngor er mwyn cyfarch yr her o sicrhau Tystysgrifau Iechyd ar gyfer Allforio o ganlyniad i'r DU adael yr UE. Nôd y cyllid yma o gronfa Prosiect Pontio yr UE 'Supporting Welsh Fisheries and Aquaculture sectors to prepare for EU Exit' yw i alluogi'r Cyngor ddarparu peth hyfforddiant/cefnogaeth hyblyg ac i gyfarch unrhyw broblemau capasiti.

**Effaith ar Wynedd**

Er mwyn deall effaith Brexit ar fusnesau a chymunedau Gwynedd, cytunwyd i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r WLGA i edrych ar y sefyllfa ar draws Cymru a gwneud dadansoddiad cymharol gan ddefnyddio rhagdybiaethau ar sail y data mwyaf cyfredol.

Comisiynwyd Grant Thornton i wneud y gwaith yma. Er eu bod wedi cael eu comisiynu cyn cyfnod COVID, gofynnwyd iddynt yn fwy diweddar i adolygu'r wybodaeth er mwyn ceisio adlewyrchu effaith COVID hefyd. Cynhyrchwyd 4 dogfen sydd yn berthnasol i Wynedd:

- Dadansoddiad o effaith cyfnod trosiannol gadael UE ar fasnachu yng Nghymru - The Impact of the EU Transition on Trade in Wales
- Dadansoddiad o'r prif risgiau ac ystyriaethau i Wynedd - Gwynedd EU Transition Exposure Dashboard
- Dadansoddiad o'r prif risgiau ac ystyriaethau i Ogledd Cymru - Regional EU Transition Exposure Dashboard – North Wales Economic Ambition Board
- Teclyn i gynorthwyo cyflogwyr i fesur eu parodrwydd i ymateb i'r newid - The EU Transition Readiness Toolkit

Mae’r dadansoddiad rhanbarthol yn berthnasol iawn i Wynedd gan ei fod yn darlunio effaith amrywiol ar draws y rhanbarth allasai gael ardrawiad ar weithwyr, cymunedau a chadwyni cyflenwi busnesau Gwynedd. Ond hoffwn dynnu sylw arbennig yma i’r ail adroddiad sydd yn manylu ar sefyllfa Gwynedd. Fe nodwch fod yr adroddiad yn dod ir casgliad:

- O'i gymharu â gweddill Cymru, mae gan Wynedd gyfran isel o'i phoblogaeth a aned yn yr UE, sef 1.6%, sy'n cymharu â chyfartaledd Cymreig o 2.6%.
- Mae Gwynedd yn yr 20% isaf o’r Mynegai Bregusrwydd Cymunedol, sy'n dangos lefelau isel iawn o niwed cymdeithasol i bontio'r UE.
- Er gwaethaf diffyg bregusrwydd yn gyffredinol, mae gan Wynedd lefelau uchel iawn o bobl a gyflogir mewn galwedigaethau elfennol a chyfanswm incwm isel iawn.
- Mae Gwynedd wedi gweld lefelau uchel o ymfudo net, gyda'r gyfradd ymfudo net ail uchaf o holl awdurdodau Cymru.
- Mewn perthynas â phob awdurdod arall yng Nghymru, mae gan Wynedd gyfran uchel iawn o gyflogaeth mewn Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota, a nodir fel sector 'mewn perygl' i bontio'r UE. Mae ganddo hefyd lefelau uchel iawn o gyflogaeth yn y Celfyddydau, adloniant a hamdden a gwasanaethau llety a bwyd sydd ill dau mewn perygl arbennig i COVID-19.
- Mae cynhyrchiant, fel y'i mesurir gan GYC fesul swydd, yn isel yng Ngwynedd sy'n 15fed allan o 22 awdurdod.
- Pan gaiff cyflogaeth ar draws yr holl sectorau 'mewn perygl' COVID-19 ei hagregu a'i meincnodi i bob awdurdod arall yng Nghymru, mae gan Wynedd gyfran gymharol gyfartalog o bobl a gyflogir mewn sectorau 'mewn perygl', o gymharu ag awdurdodau eraill Cymru, a chyfran gyfartalog o fusnesau mewn sectorau 'mewn perygl'.
- Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y gostyngiad mewn GYC o ganlyniad i COVID-19 yn 15% sy'n uwch na chyfartaledd Cymru.
- Er i'r gyfradd hawlwyr godi'n sydyn ym mis Mawrth, mae wedi aros yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU ac mae'n ymddangos ei bod yn gostwng yn raddol.
- Gwynedd sydd â'r gyfradd o holl awdurdodau Cymru sy'n defnyddio'r cymorth ffyrlo, ar 36%.

Mae’r adroddiad yn tynnu sylw i’r goblygiadau mwyaf allweddol i Wynedd:

- Er bod Gwynedd yn isel ar y Mynegai Bregusrwydd Cymunedol, mae'n dal yn bwysig i'r Cyngor barhau i gefnogi'r cymunedau mwyaf agored i niwed, yn enwedig yng ngoleuni colli swyddi a lleihau incwm o ganlyniad i COVID-19. Fel rhan o hyn, bydd yn bwysig i'r Cyngor nodi lle y gallai cymunedau newydd sy'n agored i niwed fod yn dod i'r amlwg.
- O ystyried y cyfrannau uchel iawn o gyflogaeth mewn Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yng Ngwynedd o'i gymharu â gweddill Cymru, dylai'r Cyngor geisio deall y risgiau y gallai hyn eu cynnig i'r economi leol ar ôl trosglwyddo'r UE. Gallai'r risgiau hyn ymwneud â busnesau, pobl a lleoedd ac mae'n anochel y byddant yn gysylltiedig. Bydd gweithio drwy rai o'r senarios a'r cysylltiadau hyn yn bwysig o ran helpu i ddarparu cydnerthedd economaidd a chymdeithasol.

- Dylid canolbwyntio'n benodol hefyd ar gefnogi busnesau yn y sectorau hynny y mae COVID-19 yn effeithio fwyaf arnynt (y Celfyddydau, adloniant a hamdden a Gwasanaethau Llety a bwyd) lle bydd y ffocws rheoli wedi bod ar oroesi yn hytrach na pharatoadau ar gyfer trosglwyddo'r UE. Un cam gweithredu allweddol i fusnesau ddylai fod ystyried sefyllfa eu cyflenwyr hanfodol drwy gydol y gadwyn gyflenwi er mwyn sicrhau parhad a chydymffurfiaeth busnes.
- Mae'r gostyngiad yng nghofrestriadau NINO yr UE dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu y dylai Gwynedd asesu sut y bydd lefelau ymfudo is yn effeithio ar yr economi. Dylai'r asesiad hwn ystyried graddfa, cryfderau, gwendidau, sectorau allweddol a chynhyrchiant yr economi. Bydd hyn yn helpu i ddeall yr amlygiad lleol i bontio'r UE fesul sector ac ymyrryd neu gynnig sicrwydd a chefnogaeth lle bo hynny'n allweddol

Cyn comisiynu'r gwaith yma, roedd yr Adran Economi a Chymuned wedi cynnal cyfres o drafodaethau gyda gwahanol fusnesau a mentrau i ddeall yr effaith posibl ar gyflogwyr allweddol y sir ac i godi ymwybyddiaeth o'r wybodaeth a'r cyngor ar gael iddynt gan eu hannog i gynllunio lle'n bosibl. Mae'r wybodaeth yma yn parhau i fod ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd, ond maen deg nodi nad yw wedi cael cymaint o sylw ers cychwyn y cyfnod COVID.

Argymhellir fod Cyngor Gwynedd yn hyrwyddo mwy ar y wybodaeth yma dros yr wythnosau nesaf ac yn ail gychwyn y gwaith ymgysylltu gyda busnesau, cyflogwyr a chymunedau yn y flwyddyn newydd pan fydd sefyllfa unrhyw gytundeb gadael yn gliriach.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**
Rwy'n croesawu yr adroddiad yma. Mae'n cadarnhau fod y fath waith monitro a pharatoi sydd yn bosib  ar gyfer senarios ynglŷn a diwedd y cyfnod trosiannol wedi parhau.

**Pennaeth yr Adran Cyllid:**
Mae'r Cyngor wedi cydnabod ers amser fod risg yn bodoli o gostau uwch mewn meysydd penodol, yn enwedig gyda bwyd, tanwydd, offer a meddyginiaeth.  Fodd bynnag, mae ansicrwydd yn bodoli o ran tebygolrwydd a maint unrhyw gynnydd o'r fath, ac mae'n bosib y bydd amgylchiadau eraill hefyd yn arwain at gostau uwch yn 2021.  Felly, er bydd y costau yn cael eu hasesu'n rheolaidd, ni fydd modd ynysu ac adnabod cyfanswm y gost ariannol wirioneddol.  Yn ogystal ag agweddau ariannol a chyflenwadau, mae camau wedi'u cymryd er mwyn lliniaru'r risgiau yn ymwneud â diogelu gwybodaeth, a'r effaith bosib pe na byddai cytundeb o ran rhannu gwybodaeth rhwng y DG a'r Undeb Ewropeaidd